

Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu
DYDDIAD:	23-11-2022
LLEOLIAD:	Cyfarfod hybrid
TEITL:	Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog, fel y'i nodwyd yn Neddf y Lluoedd Arfog 2021
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu am y rhwymedigaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf y Lluoedd Arfog 2021
RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:	Er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeddfwriaeth.

CEFNDIR:

Yn sgil cymal 8, Deddf y Lluoedd Arfog 2021, mae gofyniad newydd ar rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, i roi sylw dyladwy i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog. Mae hyn yn golygu y bydd angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r gyfraith newydd unwaith y daw i rym, yn hwyr yn 2022. Y swyddogaethau sy'n berthnasol i'r cyngor o ran y ddeddf hon yw tai, addysg a'r gwasanaethau cyffuriau ac alcohol.

Mae Deddf y Lluoedd Arfog 2021 yn ymgorffori Cyfamod y Lluoedd Arfog yn gyfraith ac mae hyn yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i sicrhau nad yw aelodau'r lluoedd arfog, milwyr wrth gefn a'u teuluoedd dan anfantais pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Derbyniodd Deddf y Lluoedd Arfog 2021 Gydsyniad Brenhinol ar 15 Rhagfyr 2021.

Cyflwynwyd y Canllawiau Statudol drafft ynghylch Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ym mis Gorffennaf 2022. Gallwch weld copi yn Atodiad A.

Cyfamod y Lluoedd Arfog

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn addewid gan y genedl y dylai Cymuned y Lluoedd Arfog gael ei thrin yn deg ac na ddylai wynebu unrhyw anfantais wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a masnachol. Ar ben hynny, rhoddir ystyriaeth arbennig mewn achosion priodol i'r rheiny sydd wedi aberthu fwyaf. Sefydlwyd y Cyfamod yn ei ffurf bresennol yn 2011 ac ers hynny, mae miloedd o sefydliadau gwahanol - gan gynnwys busnesau, awdurdodau lleol, prifysgolion, ac elusennau – wedi ymrwmo i anrhydeddu'r Cyfamod a chefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog. O ganlyniad i hyn, bu llawer o enghreifftiau ledled y Deyrnas Unedig o arferion da wrth gael gwared ag achosion o anfantais, eu lliniaru a'u hatal rhag digwydd. Bu i Gyngor Sir Ceredigion lofnodi Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog yn

Rhagfyr 2013, Chwefror 2016, ac Ionawr 2018 gan ailddatgan ei ymrwymiad i Gyfamod y Lluoedd Arfog ym Medi 2021.

Mae Cyngor Sir Ceredigion eisoes wedi cymryd camau cadarnhaol ac mae wedi gwneud newidiadau i bolisiau fel rhan o'r ymrwymiad i'r Cyfamod. Er enghraifft, mae Polisi Derbyn i Ysgolion Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi arweiniad i deuluoedd aelodau lluoedd arfog y Deyrnas Unedig ac mae'r polisiau Adnoddau Dynol wedi'u hadolygu i adlewyrchu sefyllfa'r Awdurdod Lleol fel cyflogwr.

Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog

Gan adeiladu ar y cynnydd da a wnaed, gwnaeth Deddf y Lluoedd Arfog 2021 ddiwygio Deddf y Lluoedd Arfog 2006 gan greu'r rhwymedigaeth gyfreithiol ganlynol ar gyrff penodol ym mhob un o bedair cenedl y Deyrnas Unedig. Yr enw ar y rhwymedigaeth gyfreithiol hon yw Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog ac mae fel a ganlyn:

Pan fydd corff penodedig yn arfer swyddogaeth berthnasol, rhaid iddo roi sylw dyladwy i'r canlynol:

(a) rhwymedigaethau unigryw y Lluoedd Arfog a'r aberthau a wnânt

(b) yr egwyddor ei bod yn ddymunol gwaredu anfanteision i aelodau'r Lluoedd Arfog sy'n deillio o'u haelodaeth neu gyn aelodaeth o'r Lluoedd Arfog, a

(c) yr egwyddor y gellir cyfiawnhau darpariaeth arbennig i aelodau'r Lluoedd Arfog oherwydd effaith aelodaeth neu gynaelodaeth o'r Lluoedd Arfog ar yr unigolion hynny

Amcan y Ddyletswydd yw codi ymwybyddiaeth o egwyddorion y Cyfamod, y rhesymau amdanynt, ac yn y pen draw, gwella'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch Cymuned y Lluoedd Arfog. Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol bod ystyriaeth ymwybodol yn cael ei rhoi i anghenion aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog wrth wneud penderfyniadau ynghylch datblygu a darparu rhai gwasanaethau penodol.

Swyddogaethau perthnasol

Mae'r swyddogaethau perthnasol sydd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y ddyletswydd fel a ganlyn:

- a. O ran lleoliadau Gofal Sylfaenol y GIG, Gofal Eilaidd y GIG, a'r gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan Awdurdodau Lleol, y swyddogaethau canlynol: darparu gwasanaethau; cynllunio ac ariannu; a chydweithio rhwng gyrff a gweithwyr proffesiynol
- b. O ran lleoliadau addysg orfodol, y swyddogaethau canlynol: derbyniadau; cyrhaeddiad addysgol a'r cwricwlwm; llesiant plant; trafndiaeth; presenoldeb; a chymorth o ran anghenion ychwanegol.
- c. Y swyddogaethau tai canlynol: polisi dyraniadau ar gyfer tai cymdeithasol; digartrefedd; a'r grantiau cyfleusterau i'r anabl.

Sylw Dyladwy

Nid yw'r Ddeddf yn datgan yr hyn y mae'n rhaid i gorff ei wneud er mwyn rhoi sylw dyladwy. Mater i'r corff dan sylw felly yw'r modd y mae'n bodloni Dyletswydd y Cyfamod a'r modd y caiff y Ddyletswydd ei hadlewyrchu yn y polisiau neu'r gweithdrefnau perthnasol. Golyga hyn fod angen gwneud penderfyniadau gwybodus ac y dylai cyrff penodedig feddwl am egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog wrth iddynt ystyried yr holl ffactorau sy'n berthnasol i'r modd y maent yn cyflawni'r swyddogaethau dan sylw a rhoi pwyslais priodol arnynt. Felly, dylai cyrff penodedig sicrhau bod trefniadau ar waith sy'n ysgogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i asesu sut y gallai eu penderfyniadau effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n perthyn i Gymuned y Lluoedd Arfog, gan ystyried cwmpas y Ddyletswydd wrth wneud hynny.

Cymuned y Lluoedd Arfog

Mae'r Ddyletswydd yn berthnasol i aelodau canlynol Cymuned y Lluoedd Arfog, sy'n cael eu diffinio gyda'i gilydd yn y Ddeddf fel 'pobl y lluoedd arfog':

- a. aelodau o'r lluoedd rheolaidd a'r lluoedd wrth gefn
- b. aelodau o luoedd tiriogaethol tramor Prydain sy'n ddarostyngedig i gyfraith y lluoedd arfog
- c. cyn-aelodau unrhyw un o luoedd Ei Mawrhydi sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig; a
- d. aelodau perthnasol o'r teulu [y rhai yn (a) i (c) uchod]

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Wrth gyflawni ei ymrwymadau presennol, mae'r Cyngor yn rhoi sylw dyladwy i ofynion Cymuned y Lluoedd Arfog, ac mae wedi ceisio adeiladu'n gadarnhaol ar ei ymrwymiad ers gwneud ei addewid cychwynnol. Mae hyn wedi arwain at wneud gwelliannau uniongyrchol i bolisiau'r Cyngor fel rhan o'i ymrwymiad i'r Cyfamod. Mae hyn i'w weld yn glir yn y polisi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith sy'n cefnogi opsiynau gweithio hyblyg. Mae'r polisi hwn hefyd yn cydnabod yr angen clir i aelodau'r lluoedd arfog a milwyr wrth gefn gael cyfnodau awdurdodedig ychwanegol o absenoldeb i gefnogi eu hymrwymadau ychwanegol.

Hefyd, trwy ddarparu swyddogaeth ysgrifenyddiaeth, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi arwain y gwaith o sefydlu Fforwm Cymunedol Lluoedd Arfog Ceredigion sy'n gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid i godi proffil Cymuned y Lluoedd Arfog yn barhaus. Trwy ymyriadau uniongyrchol a gweithio mewn partneriaeth mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cadarnhau ei ymrwymiad i Gynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn ac mae'r gwaith cadarnhaol hwn wedi cael ei gydnabod gan Wobrau Arian ac Efydd.

Yn ogystal â'r uchod, mae trefniadau ar y gweill i hyrwyddo hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ychwanegol drwy gyrsiau ar-lein a fydd yn paratoi'r gwasanaethau ar gyfer y ddeddfwriaeth hon. Caiff hyn ei hyrwyddo drwy'r Tîm Dysgu a Datblygu. Ystyrir hefyd adolygu polisiau Addysg a Thai y Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â Chyfamod y Lluoedd Arfog. Caiff y Canllawiau Statudol eu hystyried ynghyd ag enghreifftiau o gyngor ac arferion da. Bydd y

Cyngor yn defnyddio'r rhain i wella'r ddarpariaeth ymhellach ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

CAMAU ARFAETHEDIG

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Cyngor eisoes yn ei wneud, cynigir y bydd y camau ychwanegol canlynol yn cael eu cymryd wrth baratoi ar gyfer y ddyletswydd:

- Archwilio cyfleoedd i wella'r prosesau a ddefnyddir gan y gwasanaethau i gasglu data. Bydd Swyddog Cyswllt Rhanbarthol y Lluoedd Arfog yn darparu cyngor am y categorïau y bydd angen i'r gwasanaethau unigol eu defnyddio.
- Annog gweithwyr ac aelodau etholedig i wneud trefniadau ar CERINET i fynd i'r sesiynau codi ymwybyddiaeth am Gyfamod y Lluoedd Arfog.

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:

Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam: Nid oes angen Asesiad Effaith Integredig am mai papur er gwybodaeth yw hwn.

Crynodeb:

Hirdymor:

Effaith gadarnhaol sy'n sicrhau nad yw cymuned y Lluoedd Arfog o dan anfantais wrth gael mynediad at wasanaethau.

Integreiddio:

Cydweithio:

Cynnwys:

Atal:

ARGYMHELLIAD: Bod y Pwyllgor Craffu yn nodi'r rhwymedigaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf y Lluoedd Arfog 2021

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD: Er mwyn bod yn hollol ymwybodol o'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf sy'n ymwneud â Chymuned y Lluoedd Arfog.

Enw cyswllt: Alun Williams

Swydd: Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Partneriaethau a Pherfformiad

Dyddiad yr adroddiad: 28-10-22

Acronymau:

Atodiad A – Canllawiau Statudol DRAFFT ynghylch Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog – a gyhoeddwyd o dan adran 343AE(1) Deddf y Lluoedd Arfog 209006 : 2022



DRAFTStatutoryGuid
ance.pdf